***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1131 (Cy. 274)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 1.40 p.m. ar 8 Hydref 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 5.00 p.m. ar 8 Hydref 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45Q(3) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Hydref 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) galluogi'r person i geisio atal salwch, anaf neu risg arall o niwed i berson arall ("A")—

(i) pan na fo'n bosibl neu pan na fo'n ymarferol i rywun arall gynorthwyo A,

(ii) pan na fo'r person yn cynorthwyo A fel rhan o waith y person na thrwy ddarparu gwasanaethau gwirfoddol, a

(iii) pan fo'r risg o niwed i A o fod yn yr un man â'r person yn llai na'r risg o niwed i A y mae'r person yn ceisio ei atal;";

(ii) yn lle paragraff (h) rhodder—

"(h) symud i fan gwahanol i fyw—

(i) pan fo'n mynd yn anymarferol aros yn y man lle y mae'r person yn byw, neu

(ii) er mwyn atal salwch i berson arall sy'n byw yn y man lle y mae'r person yn byw;";

(b) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Caiff swyddog olrhain cysylltiadau, at ddibenion penderfynu pa un ai i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson yn unol â pharagraff (5)(b) neu (6)(b), gael a defnyddio gwybodaeth ynghylch a yw person—

(a) wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig;

(b) wedi cymryd rhan mewn, neu yn cymryd rhan mewn, treial clinigol o frechlyn ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws a gynhaliwyd neu a gynhelir yn y Deyrnas Unedig yn unol â gofynion Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004(**3**)."

(3) Hepgorer rheoliad 10A.

(4) Yn rheoliad 14—

(a) ym mharagraff (2), o flaen is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ab) gwybodaeth ynghylch a yw person—

(i) wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig;

(ii) wedi cymryd rhan mewn, neu yn cymryd rhan mewn, treial clinigol o frechlyn ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws a gynhaliwyd

(**2**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210) ac O.S. 2021/970 (Cy. 228).

(**3**) O.S. 2004/1031 fel y'i diwygiwyd gan adran 116 o Ddeddf Gofal 2014 (p. 23) a chan O.S. 2004/3224, O.S. 2005/2754, O.S. 2005/2759, O.S. 2006/562, O.S. 2006/1928, O.S. 2006/2984, O.S. 2007/289, O.S. 2007/3101, O.S. 2008/941, O.S. 2010/231, O.S. 2010/551, O.S. 2010/1882, O.S. 2011/2581, O.S. 2012/134, O.S. 2012/504, O.S. 2012/1641, O.S. 2012/1916, O.S. 2013/532, O.S. 2016/190, O.S. 2016/696, O.S. 2019/593, O.S. 2019/744, O.S. 2019/1094 ac O.S. 2020/1488.

neu a gynhelir yn y Deyrnas Unedig yn unol â gofynion Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004;";

(b) yn lle paragraff (8) rhodder—

"(8) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "brechlyn awdurdodedig" a "treial clinigol" yr un ystyron ag yn rheoliad 10;

(b) mae i "data personol" a "deddfwriaeth diogelu data" yr un ystyron â "personal data" a "data protection legislation" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(**4**)."

(5) Yn rheoliad 57(9), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer "rheoleiddiedig".

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021**

**3.**—(1) Yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021(**5**), mae'r rheoliad 16A sydd i'w fewnosod ar ôl rheoliad 16 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) At ddibenion paragraff (2)(c), mae person sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth crefyddol mewn mangre a ddefnyddir fel arfer fel addoldy i'w drin fel pe bai'n eistedd fel arfer."

(3) Ym mharagraff (6)—

(a) yn is-baragraff (b), yn y testun Saesneg, ar ôl "in relation to" mewnosoder "a";

(b) yn is-baragraff (c)—

(i) yn lle "neu gerdyn" rhodder ", cerdyn";

(ii) ar ôl "Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau" mewnosoder ", neu dystysgrif brechlyn sy'n ymwneud â'r person".

(4) Ym mharagraff (8), yn lle "person wedi cael cwrs o ddosau o frechlyn" rhodder "dosau wedi eu gweinyddu".

(5) Ym mharagraff (9)—

(a) yn is-baragraff (b)—

(i) ar y dechrau mewnosoder "mewn perthynas â chwrs o ddosau a weinyddir yn y Deyrnas Unedig neu mewn gwlad berthnasol,";

(ii) yn lle "cwblhau" rhodder "cwblhau'r";

(iii) yn y geiriau agoriadol, daw'r geiriau o "os yw'r person" hyd at y diwedd yn baragraff (i) o'r is-baragraff hwnnw;

(iv) daw'r paragraff (i) presennol yn is-baragraff (aa);

(v) daw'r paragraff (ii) presennol yn is-baragraff (bb);

(vi) ar ddiwedd is-baragraff (bb) fel y'i hailrifir mewnosoder ", neu";

(vii) ar ôl is-baragraff (bb) fel y'i hailrifir mewnosoder—

"(ii) os yw'r person wedi cael dos o un brechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn awdurdodedig gwahanol; ";

(**4**) 2018 p. 12.
(**5**) O.S. 2021/1119 (Cy. 271).

(b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(c) mewn perthynas â chwrs o ddosau a weinyddir o dan raglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor, mae person wedi cwblhau’r cwrs o ddosau—

(i) os yw’r person wedi cael y cwrs cyflawn o ddosau o’r brechlyn fel y’i pennir yng nghanllawiau’r gweithgynhyrchydd ar gyfer y brechlyn hwnnw, neu

(ii) os yw’r person wedi cael dos o un brechlyn a dos o frechlyn gwahanol.”

(6) Ym mharagraff (10)—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) ym mharagraff (i), ar ôl “Deyrnas Unedig” mewnosoder “neu mewn gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12)”;

(ii) ym mharagraff (ii), ar ôl “gwlad berthnasol” mewnosoder “a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11)”;

(b) yn is-baragraff (c)(ii), ar ôl “gwlad berthnasol” mewnosoder “a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl ym mharagraff (11)”;

(c) yn is-baragraff (d), ar ôl “mharagraff (11)” mewnosoder “neu wlad neu diriogaeth a restrir ym mharagraff (12)”;

(d) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

“(g) ystyr “tystysgrif brechlyn” yw tystysgrif mewn Saesneg, Ffrangeg neu Sbaeneg a ddyroddir gan awdurdod iechyd cymwys Awstralia, Canada neu wlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12) sy’n cynnwys—

(i) enw llawn y person;

(ii) dyddiad geni’r person;

(iii) enw a gweithgynhyrchydd y brechlyn y mae’r person wedi ei gael;

(iv) y dyddiad y cafodd y person bob dos o’r brechlyn;

(v) manylion ynghylch naill ai pwy yw dyroddwr y dystysgrif neu’r wlad y rhoddwyd y brechlyn ynddi, neu’r ddau.”

(7) Ym mharagraff (11), yn y tabl, yn y lleoedd priodol mewnosoder—

(a) yn y golofn gyntaf (gwlad berthnasol) mewnosoder “Awstralia”, ac yn yr ail golofn (rheoleiddiwr perthnasol) ar yr un rhes mewnosoder “Y Weinyddiaeth Nwyddau Therapiwtig”;

(b) yn y golofn gyntaf mewnosoder “Canada”, ac yn yr ail golofn ar yr un rhes mewnosoder “Iechyd Canada”.

(8) Ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

“(12) Y gwledydd a’r tiriogaethau y cyfeirir atynt yn y diffiniad o “gwlad berthnasol” yw—

Yr Aifft

Albania

Antigua a Barbuda

Y Bahamas

Bahrain

Bangladesh

Barbados